I geisio canfod safbwyntiau ehangach, fe wnes i wahodd nifer o bobl eraill i sefydlu grŵp bychan i gydweithio â fi i adolygu argymhellion Thornhill a thystiolaeth arall. Aelodau'r grŵp oedd Rhys Gwilym-Taylor (cynrychiolydd Cymru ar gyfer adolygiad Thornhill), Helen Thomas (un o ymgyrchwyr y blaid yng Nghymru ers tro byd a chyn-drefnydd etholaeth yng Ngogledd Dyfnaint), Mark Williams (cyn-arweinydd y blaid yng Nghymru ac AS blaenorol Ceredigion), ac Alison Willott (un o ymgyrchwyr y blaid yng Nghymru ers tro byd ac ymgeisydd blaenorol). Rwy'n hynod o ddiolchgar iddynt am wirfoddoli eu hamser yn ystod haf hir ac anarferol, ac am eu sylwgarwch, eu creadigrwydd, a'u hawydd i helpu Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i lwyddo.

Mae'r adroddiad yn dilyn dull thematig adolygiad Thornhill, gan ymdrin yn y drefn hon â gweledigaeth a diben; eglurder arweinyddiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau; ac ailadeiladu rhagoriaeth ymgyrchu. Mae'r holl gamau gweithredu arfaethedig yn gysylltiedig ag argymhellion adolygiad Thornhill.

Mae'n bwysig pwysleisio, os yw rhai o'r camau arfaethedig yn creu beirniadaeth eglur neu ddealedig o berfformiad blaenorol y Blaid yng Nghymru, nid yw hyn yn adlewyrchiad o unrhyw ddeiliaid swyddi penodol yn ystod unrhyw gyfnod penodedig; mae adolygiad Thornhill yn datgan yn eglur fod y problemau yn rhai tymor hir ac yn ymwneud â strwythurau, ac rydym ni'n ategu'r safbwynt hwn. Yn anad dim, nid yw'n adlewyrchu deiliaid swyddi presennol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, y gwnaeth llawer ohonynt gychwyn gwneud y gwaith wedi Etholiad Cyffredinol 2019. Rwy'n ymwybodol o waith sydd eisoes yn cael ei wneud gan y pwyllgorau presennol mewn ymateb i heriau y maent hwy eu hunain wedi'u nodi. Mewn rhai achosion, bydd y camau argymelledig sydd wedi'u cynnwys yma eisoes wedi cael eu sefydlu ac efallai fod y canlyniad wrthi'n cael ei gyflawni.

Ceir nifer o themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein trafodaeth, ac rwy'n dymuno dwyn sylw atynt. Mae llawer o'r heriau a nodwyd yn Adolygiad Thornhill yn berthnasol i Gymru, ond yn fwy perthnasol fyth. Er enghraifft, yn ôl Thornhill, "Roedd Cymru yn enghraifft anffodus o'r diffyg seilwaith lleol"; rydym ni'n cytuno â'r sylw hwn ac adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a gawsom ni gan aelodau. Ceir pedair thema a ddaeth i'r



amlwg dro ar ôl tro yn ein trafodaethau, ac fe wnaif i bwysleisio'r themâu hynny yma:

- **Mae angen ymatebion tymor hir i ddatrys problemau tymor hir:**

Mae Adolygiad Thornhill yn casglu fod y methiant yn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig “yn deillio o'r heriau cynhenid a thymor hir a wynebai'r blaid”. Rydym ni'n cytuno â'r safbwynt hwn mewn perthynas â Chymru; nid oedd llawer o'r problemau a wnaeth ein poeni ni yn 2019 yn rhai newydd. Mae llawer o'r camau gweithredu argymelledig rydym ni'n eu nodi yn pwysleisio'r angen i gynllunio at y tymor hir, yn ystod sawl cylch etholiadol, a pheidio cael ein dylanwadu gan bwysau ac amcanion tymor byr.

- **Diwylliant o ddrwgdybiaeth:**

Unwaith yn rhagor, roedd hon yn broblem ar lefel y Deyrnas Unedig a nodwyd yn Adolygiad, ac mae hynny'n berthnasol i'r un graddau i Gymru, ac yn arbennig o berthnasol yma efallai. Mae Thornhill yn cyfeirio at “ymraniad sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd sydd wedi gwneud i ymgyrchwyr gredu fod pethau 'yn cael eu gwneud i ni' gan bencadlys canolog di-glem”. Mae'r sylwadau gan aelodau y gwnaethom ni eu derbyn yn dangos fod y safbwynt hwn yn cael ei deimlo'n gryf yng Nghymru (er y defnyddir “y Blaid yng Nghymru” neu'r “arweinyddiaeth” yn hytrach na'r “pencadlys”), a bod yn rhaid i'r gwaith o ddatrys yr ymraniad hwn a datblygu ymddiriedaeth a hyder fod yn rhan allweddol o ffocws y Blaid yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

- **Pwysigrwydd yr elfen leol:**

Mae adolygiad Thornhill yn pwysleisio pwysigrwydd ymgyrchu'n lleol, ond rydym ni'n teimlo fod angen ymhelaethu ar hyn a'i ailadrodd mewn perthynas â Chymru, Mae'r amgylchiadau etholiadol rydym ni'n eu hwynebu yn golygu na ellir cymryd yn ganiataol y byddwn yn dychwelyd yn gyflym i sefyllfa o gynrychiolaeth yn San Steffan, na mwy o gynrychiolaeth ym Mae Caerdydd. Oherwydd hynny, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwleidyddiaeth gymunedol, ymgyrchu lleol, ac etholiadau llywodraeth leol yn enwedig.

- **Y berthynas ddatganoledig a ffederal:**

Prin y rhoddir sylw i hyn yn adolygiad Thornhill, ond mae'n elfen bwysig iawn mewn unrhyw drafodaethau ynghylch Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae hyn yn enwedig o wir yn achos y thema 'llywodraethu', ble caiff materion yn ymwneud â dynodi cyfrifoldebau rhwng yr Arweinydd, y Llywydd a'r Prif Weithredwr eu cymhlethu yng Nghymru gan faterion ychwanegol yn ymwneud â dynodi cyfrifoldebau rhwng y Blaid yng Nghymru a'r Blaid Ffederal. Rydym ni'n glir fod holl rannau'r Blaid Ffederal (Pencadlys, Arweinydd, Llywydd, Bwrdd) wedi dangos diffyg parch at brydiau at sefyllfa gyfansoddiadol y Blaid yng Nghymru, ac ni ellir caniatáu i hynny barhau.

Mae'n rhaid i mi hefyd ymdrin yn gryno ag Uno i Aros. Roeddwn i wedi gobeithio osgoi gwneud hynny, oherwydd nid yw codi hen grachen yn gynhyrchiol ynddo'i hun. Fodd bynnag, yn ystod trafodaeth am ddiwylliant y blaid, llywodraethu, a'r berthynas ddatganoledig a ffederal, crybwyllwyd Uno i Aros sawl gwaith. Bydd gan rai aelodau eu safbwyntiau eu hunain ynghylch gwerth cytundeb Uno i Aros, pan wnaeth y Democratiaid



Rhyddfrydol dynnu enwebiad eu hymgeisydd yn ôl mewn rhai etholaethau er budd Plaid Cymru, y Blaid Werdd ac eraill. Ni wnaif i gynnig sylwadau ynghylch doethineb y trefniant hwn, yn enwedig o gofio mai dim ond ar ôl digwyddiad y gellir edrych yn ôl. Fodd bynnag, mae'r dull o weithredu'r trefniant, yn erbyn dymuniadau'r pleidiau lleol oedd dan sylw ar brydiau, heb lawer o dryloywder, heb awdurdod cyfansoddiadol eglur, a thrwy gynnal trafodaethau oddi allan i Gymru oll wedi cyfrannu'n ddi-os at ddrwgdybiaeth ymhlith y Blaid yng Nghymru.

Yn olaf, rydym ni (ar y cyfan) wedi ceisio osgoi cynnig camau gweithredu a wnaiff effeithio'n uniongyrchol ar ymgyrch etholiadau'r Senedd yn 2021. Ceir dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, mae'r Arglwydd German a Thîm Ymgyrch Etholiadau'r Senedd wrthi'n llunio ac yn gweithredu eu cynlluniau, a gallai cyfraniad gennym ni beri dryswch ac arwain at ddisodli'r gweithgarwch hwnnw. Yn ail, mae un o themâu allweddol ein hadroddiad yn pwysleisio fod yr heriau mae'r Blaid yn eu hwynebu yn rhai tymor hir, ac mae angen atebion tymor hir i'w datrys. Mewn cyferbyniad, mae un ymgyrch etholiadol, nid waeth pa mor bwysig yw hynny, yn fwy o weithgarwch tymor byr. Dymunwn bob llwyddiant i Dîm Ymgyrch Etholiadau'r Senedd, a byddwn ni fel unigolion yn gwneud ein gorau glas i sicrhau yr etholir rhagor o Aelodau'r Cynulliad y mis Mai nesaf.

Mike O'Carroll

Awst 2020



Adroddiad a Gweithredu

Mae'r adroddiad sy'n dilyn yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu argymelledig, ac mae wedi'i drefnu yn unol â dull thematig Adolygiad Thornhill. Mae'r camau yn amrywio o brosiectau sylweddol, er enghraifft, prosiect i ddatblygu gweledigaeth tymor hir ar gyfer y Blaid (Cam Gweithredu 1), i bethau llai arwyddocaol, megis diddymu anghysonderau sy'n bodoli yng nghyfansoddiad y Blaid (Cam Gweithredu 17).

Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn cynnig rhaglen o brosiectau a diwygiadau, a dylai Bwrdd y Blaid yng Nghymru fod yn 'berchen' ar yr adroddiad cyfan.

Mae'r rhaglen yn cynnwys 40 o wahanol gamau gweithredu a phrosiectau, ac felly, mae'n faich gwaith sylweddol, yn enwedig ar ôl ei fapio i adnoddau cyfyngedig y Blaid. Fodd bynnag, hoffem ni bwysleisio'r angen dybryd i gyflawni'r rhaglen hon, ac rydym ni wedi cynnig rhywfaint o amserlenni ar wahân i'r Bwrdd. Rydym ni'n gobeithio y byddant yn mynd ati'n gyflym, a chyn cynhadledd yr hydref, i nodi fframwaith i gyflawni'r amcanion.

Rydym ni'n gwybod fod gan y Blaid ar bob lefel draddodiad cryf o lunio adroddiadau a thraddodiad llawer gwannach o safbwynt eu rhoi ar waith. Yn wir, gellir canfod llawer o themâu a champau gweithredu o'n hadroddiad mewn ymarferion tebyg a gwblhawyd yn ystod y 15 mlynedd ddiwethaf. Felly, rydym ni'n cynnig y dylai Grŵp yr Adroddiad barhau i fodoli, ac y dylai roi diweddariad ym mhob Cynhadledd (gwanwyn a hydref), yn cynnwys ei asesiad o'r gweithredu gan Fwrdd y Blaid yng Nghymru, nes bydd yr holl gamau gweithredu a'r prosiectau wedi cael eu cwblhau.

Wrth gwrs, nid ydym ni'n hollwybodol nac yn hollalluog, ac mae'n bosibl y gwnaiff Bwrdd y Blaid yng Nghymru wrthod ein cam(au) gweithredu argymelledig ynghylch mater neu faterion penodol. Mewn rhai achosion, efallai nad oedd gennym ni'r wybodaeth lawn, ac mewn achosion eraill, efallai nad ydym ni'n ymwybodol o brosiectau sydd eisoes ar y gweill, ac mewn achosion eraill, efallai bydd barn y Bwrdd yn wahanol i'n barn ni. Dan amgylchiadau o'r fath, fe wnawn ni (Grŵp yr Adroddiad) wrando ar resymeg y Bwrdd ac os byddwn ni'n cytuno â hynny, fe wnawn ni ddiwygio neu ddiddymu'r argymhelliad. Os byddwn ni, ar ôl gwrando ar ddadl y Bwrdd, yn cefnogi ein hargymhelliad gwreiddiol serch hynny, fe wnawn ni ddwyn sylw at y gwahaniaeth barn hwn yn ein hadroddiad nesaf i'r Gynhadledd, a byddwn yn ceisio gwneud trefniadau i alluogi'r Gynhadledd i drafod y mater.



Gweledigaeth Diben: 1A

Ar sail bywydau pobl yn y wlad heddiw, creu gweledigaeth ysbrydolgar, droswaol a deniadol a all lywio sefydliad cyfan y Democratiaid Rhyddfrydol trwy gydol oes senedd

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Mae gwleidyddiaeth Cymru yn bodoli fel maes arwahan i wleidyddiaeth y DU, ac mae angen gweledigaeth neilltuol ar gyfer Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, o fewn gweledigaeth droswaol y Blaid Ffederal.
- Bydd angen nifer o flynyddoedd ac etholiadau i alluogi pleidleiswyr i ddeall gweledigaeth gyffredinol plaid a sefydlu barn ynghylch ei 'brand'.
- Nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod â gweledigaeth nodedig sydd wedi para dros sawl cylch etholiadol ers y safbwynt ynghylch 'ymreolaeth' cyn datganoli.
- Mae'r weledigaeth Ffederal yn gyfraniad allweddol (ond nid yn ffactor tyngedfennol) at weledigaeth y Blaid yng Nghymru, ac mae'r Bwrdd Ffederal wrthi'n cynnal prosiect ynghylch gweledigaeth y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ei gylch ym Mawrth 2021.
- Roedd y sylwadau a gafodd y Grŵp gan aelodau yn dangos amrywiaeth ryfeddol o safbwyntiau ynghylch beth ddylai gweledigaeth y blaid fod.
- Mae gwaith sylweddol ynghylch negeseuon yn digwydd ar hyn o bryd cyn ymgyrch Etholiadau'r Senedd yn 2021.

CAM 1: Dylai Bwrdd Cymru sefydlu prosiect i ddatblygu gweledigaeth neilltuol a thymor hir ar gyfer Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gan ystyried y pwyntiau dilynol (isod):

- Mae ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru angen gweledigaeth nodedig fel plaid wladol yng Nghymru o fewn y Strwythur Ffederal.
- Mae angen i'r weledigaeth fod yn weledigaeth tymor hir, h.y. i oroesi fel gweledigaeth gydlynol dros nifer o gylchoedd etholiadol, dros gyfnod o 10-15 mlynedd.
- Mae angen i'r weledigaeth hon fod yn gyson a dylai'r Egwyddorion a ddisgrifir yng nghyfansoddiad y Blaid fod yn sail iddi.
- Mae angen i'r weledigaeth gael ei datblygu, o'r gwaelod i fyny, o blith aelodaeth y blaid; a



dylai gynnwys cyfraniadau gan deulu cyfan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn cynnwys Cefnogwyr Cofrestredig a chyn-aelodau.

- Dylid defnyddio cymorth proffesiynol i helpu i lunio gweledigaeth yr aelodau yn frand a negeseuon sy'n cyfathrebu'n effeithiol â phleidleiswyr – gall y Blaid Ffederal gynnig y cymorth proffesiynol hwn; neu (os bydd adnoddau digonol ar gael) gellir cael y cymorth hwnnw gan asiantaeth allanol.

CAM 2: Dylai'r negeseuon ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021 fod yn seiliedig ar y gwerthoedd sydd i'w canfod yng nghyfansoddiad y Democratiaid Rhyddfrydol, gan gofio fod elfennau o'r negeseuon hyn yn debygol o gyfrannu at y weledigaeth tymor hir.

Gweledigaeth a Diben: 1b

Gweithredu canfyddiadau adolygiad Alderdice ynghylch amrywiaeth yn y blaid, yn llawn a chyn gynted ag y bo modd

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Nid yw adolygiad Alderdice yn cynnwys llawer o gamau gweithredu eglur ac argymelledig y gellir eu dilyn/gweithredu
- Er gwaethaf hyn, mae creu diwylliant mwy amrywiol a chorff mwy cynrychiadol o ymgeiswyr, cynghorwyr a swyddogion y blaid yn bwysig ac mae angen gwneud hynny yn ddi-oed.
- Gallai'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gael ei ystyried fel rhan o amrywiaeth demograffig o fewn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.
- Nid oes gennym ni unrhyw wybodaeth/data ynghylch pa mor dda neu pa mor wael mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (ymgeiswyr, cynghorwyr neu aelodau) yn adlewyrchu cyfansoddiad demograffig Cymru. Serch hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo i unioni'r sefyllfa hon.
- Roedd rhai o'r sylwadau a gafodd y Grŵp gan aelodau yn nodi pryderon difrifol ynghylch y broses gweithredu cwynion, ac roedd rhai yn amlygu diffyg dealltwriaeth hefyd ynghylch prosesau presennol.

CAM 3: Cysylltu â'r Blaid Ffederal er mwyn deall pa gamau maent yn eu gweithredu i roi argymhellion Alderdice ar waith i sicrhau fod yr un camau neu gamau tebyg yn cael eu



gweithredu yng Nghymru. Sicrhau yn benodol fod hyn yn cynnwys camau ar gyfer monitro demograffig ac adroddiadau am hynny.

CAM 4: Datblygu cynllun i gyfathrebu ymhellach ynghylch y broses Gweithredu Cwynion Annibynnol a sefydlwyd gan y Blaid yn ddiweddar a gweithredu'r cynllun hwnnw; a pharhau i gyfrannu at ymdrechion y Bwrdd Ffederal i fireinio a gwella'r broses, yn cynnwys blaenoriaethu lleihau oedi yn y broses.

Gweledigaeth a Diben: 1c

Datblygu strategaeth eglur sy'n disgrifio uchelgeisiau ynghylch llwyddiant etholiadol, ym mhob math o etholiad, trwy gydol y cyfnod seneddol tebygol a sut ddylai'r sefydliad cyfan – cenedlaethol, gwladol, rhanbarthol, lleol, gwirfoddol a chyflogedig – ddefnyddio ei adnoddau cyfunol i gyflawni hynny

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dioddef cyfnod sylweddol o ddirywiad a lleihad o ran cefnogaeth, trefniadaeth a chynrychiolaeth; mae'r drefniadaeth sydd wedi goroesi yn y blaid yn dameidiog ac nid oes sicrwydd y gall Democratiaid Rhyddfrydol Cymru barhau i oroesi (heb sôn am ffynnu yn y dyfodol)
- Yn wyneb heriau o'r fath, mae angen i strategaeth fod yn un hirdymor, yn para nifer o gylchoedd etholiadol
- Cymunedau lleol yw'r sylfaen sy'n cynnig cryfder i Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac mae'n rhaid i unrhyw strategaeth gael ei llunio 'o'r gwaelod i fyny'

CAM 5: Dylid sefydlu Grŵp Strategaeth, a fydd yn atebol i Fwrdd Cymru, i ddatblygu Cynllun Strategol 10 mlynedd i'w fabwysiadu fan Fwrdd Cymru a Chynhadledd Cymru, a dylai'r grŵp ystyried y pwyntiau dilynol:

- Cydnabyddiaeth fod sefyllfa Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn wannach nag ar unrhyw adeg yn eu hanes (ac yn wannach nag ar unrhyw adeg yn hanes y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru ers Deddf Cynrychiolaeth y Bobl), a bod angen i'r strategaeth adlewyrchu adnoddau cyfyngedig presennol y Blaid, ond hefyd yr angen dybryd am blaid ryddfrydol gref yn ymgyrchu yng Nghymru.
- Blaenoriaethu ymgyrchu lleol, gwleidyddiaeth gymunedol, ac etholiadau llywodraeth leol, er mwyn datblygu plaid gref a all gystadlu'n effeithiol ym mhob etholiad.



- Dylai'r strategaeth fod yn 'eiddo' i aelodau'r blaid trwy gyfrwng y Gynhadledd, nid rhywbeth sy'n cael 'orfodi' o'r brig i lawr.
- Dylai'r Strategaeth gyd-fynd ag Egwyddorion sylfaenol y blaid fel y disgrifir hwy yn y cyfansoddiad.
- Dylai'r strategaeth fod yn ddogfen 'fyw' a dylai gael ei haddasu a'i golygu (gan y Gynhadledd) pan fydd amgylchiadau newidiol yn golygu fod angen gwneud hynny.
- Dylai holl weithredoedd y blaid ar bob lefel fod yn gysylltiedig â'r strategaeth; dylid cyfeirio adnoddau at y blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth; ac ni ddylai adnoddau fyth gael eu cyfeirio at brosiectau na ellir eu cysylltu â'r strategaeth.
- Pobl yw adnodd sylfaenol y Blaid yng Nghymru, ac mae angen i fentora, cymell, datblygu a chynorthwyo ein pobl fod yn rhan allweddol o'n holl waith.
- Dylai'r ddogfen gynnwys targedau ar lefel uchel ynghylch perfformiad mewn etholiadau, datblygu'r aelodaeth, datblygu pleidiau lleol, nodi ymgeiswyr a swyddogaethau a chanlyniadau tebyg eraill.

CAM 6: Cynnal archwiliad o Bleidiau Lleol fel cyfraniad allweddol at y cynllun strategol, i sicrhau dealltwriaeth wirioneddol o gryfder ymgyrchu'r Blaid yng Nghymru. Bydd yn rhaid i'r archwiliad gynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb (neu trwy gyfrwng Zoom) â swyddogion Pleidiau Lleol, yn hytrach na dim ond arolygon ar bapur yn unig. Dylai'r archwiliadau hyn hefyd gynnwys camau i nodi anghenion hyfforddiant Pleidiau Lleol. Dylai Pleidiau Lleol gael eu hysbysu am ganlyniadau'r archwiliad (canlyniadau unigol a chyfunol).

Eglurder arweinyddiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau: 2a Cadarnhau, cyfundrefnu a chyfathrebu rolau'r arweinydd, y prif weithredwr a'r llywydd

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Dros gyfnod o ddegawdau, cafwyd heriau difrifol ar brydiau o safbwynt y "rhaniad llafur" rhwng Arweinydd y Blaid yng Nghymru, Llywydd y Blaid yng Nghymru, a Phrif Weithredwr y Blaid yng Nghymru.
- Mae hyn wedi cynnwys gwahaniaeth barn ynghylch awdurdod i wneud penderfyniadau; diffyg eglurder o ran clustnodi cyfrifoldebau; a diffyg ffocws ar gyfer deiliaid swyddi sydd wedi gwneud iddynt deimlo'n rhwystredig ar brydiau.



- Mae'r "ymraniad llafur" rhwng swyddfeydd a sefydliadau datganoledig a ffederal yn creu tensiynau ychwanegol. Weithiau, mae Arweinydd y Blaid Ffederal a Phrif Weithredwr y Blaid Ffederal wedi gwneud penderfyniadau strategol a/neu dactegol ar brydiau mewn perthynas â Chymru sydd wedi amlygu diffyg parch at egwyddorion ynghylch datganoli prosesau gwneud penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfansoddiad y Democratiaid Rhyddfrydol.
- Nid yw'r cyfathrebu rhwng y Grŵp yn San Steffan a'r Grŵp yn y Cynulliad wedi bod cystal â phosibl.
- Ar hyn o bryd, nid oes llawer o fanylion yn y disgrifiadau o rolau'r Arweinydd, y Llywydd a'r Prif Weithredwr a geir yn nghyfansoddiad y Blaid Ffederal a chyfansoddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru; ac eithrio'r Prif Weithredwr, nid oes unrhyw ddisgrifiadau ychwanegol yn bodoli mewn unrhyw ddogfen arall.

CAM 7: Cynnal dadansoddiad o swyddogaethau a chyfrifoldebau, gan asesu'r holl gyfrifoldebau y mae'n rhaid i'r Blaid yng Nghymru yn ei chyfanrwydd eu cyflawni, a chlustnodi'r rhain ymhlith Swyddogion, Staff, Pwyllgorau, Grwpiau Cynrychiolwyr Etholedig a Chynhadledd y Blaid yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys yr holl bwyntiau a nodir isod:

- Dylid nodi cyfrifoldeb pob unigolyn/corff mewn tabl eglur.
- Dylai rhyngweithio a llinellau cyfrifoldeb rhwng pobl/cyrff gael eu cyfleu mewn organogram.
- Os rhennir cyfrifoldebau rhwng pobl/cyrff, dylid datgan hyn yn eglur, a dylai'r dull o ddatrys anghydfod (e.e. cyfeirio mater at gorff uwch) fod yn eglur hefyd.
- Dylai cyfrifoldebau'r Blaid Ffederal mewn perthynas â Chymru a'r Blaid yng Nghymru gael eu cynnwys yn yr ymarfer hwn hefyd.
- Dylai'r cyfrifoldebau a glustnodir adlewyrchu ac adeiladu ar y rhai sy'n bodoli yn y cyfansoddiad presennol – cadarnhau a chyfundrefnu yn hytrach na newid yw diben yr ymarfer.

CAM 8: Cyfundrefnu rolau holl Swyddogion y Blaid yng Nghymru (yn cynnwys Arweinydd a Llywydd y Blaid) trwy ddatblygu Disgrifiadau o Swyddi yn unol â'r cyfrifoldebau a glustnodir a gaiff eu nodi yng Ngham 7.

CAM 9: Cysylltu â'r Bwrdd Ffederal i sicrhau fod y broses o gyfundrefnu rolau'r Arweinydd, y Llywydd a'r Prif Weithredwr Ffederal yn parchu annibyniaeth y Blaid yng Nghymru; a dynodi



cyfrifoldebau unigol pobl a chyrrff y Blaid Ffederal a'r Blaid yng Nghymru gan ddefnyddio tablau cyfrifoldebau a/neu organogram.

CAM 10: Sicrhau y caiff y rolau wedi'u cyfundrefnu a'u cyfrifoldebau eu hadolygu a'u cymeradwyo ar ôl pob etholiad i ddewis Arweinydd i'r Blaid yng Nghymru, Llywydd y Blaid yng Nghymru a Bwrdd y Blaid yng Nghymru, ac ar ôl penodi unrhyw Brif Weithredwr newydd i'r Blaid yng Nghymru. Sicrhau fod y cyfrifoldebau a ddynodir ar gyfer y Blaid Ffederal a'r Blaid yng Nghymru yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo yn dilyn unrhyw etholiad newydd i ddewis Arweinydd y Blaid Ffederal, Llywydd y Blaid Ffederal a Bwrdd y Blaid Ffederal, a phan benodir unrhyw Brif Weithredwr newydd ar gyfer y Blaid Ffederal.

Eglurder arweinyddiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau: 2b

Mewn ymateb i'r diben cyffredinol a'r cyfeiriad strategol (1a ac 1c), dylid sicrhau fod adnoddau digonol ar gael i sefydlu cynllun i weithredu'r newidiadau gofynnol i ddiwylliant, prosesau, strwythurau ac adnoddau'r sefydliad

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Nid yw prosesau gwneud penderfyniadau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gweithredu cystal ag y dylent bob amser; mae'r broses gwneud penderfyniadau wedi bod yn araf, ac weithiau, nid yw penderfyniadau wedi cael eu gwneud o gwbl.
- Nid yw pwyllgorau'r Blaid yng Nghymru wedi llwyddo'n gyson i gyflawni'r lefel o berfformiad sy'n ofynnol i sicrhau fod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn llwyddo; cyn 2016, roedd gan bwyllgorau rôl gyfyngedig mewn perthynas â'r rhan fwyaf o benderfyniadau a chamau gweithredu staff y Blaid; wedi 2016, cafwyd 'pocedi' o ragoriaeth ymhlith y pwyllgorau, ond nid yw rhai pwyllgorau wedi cyflawni eu cyfrifoldebau yn llwyddiannus.
- Er bod strwythur y pwyllgorau wedi cael ei ddiwygio yn weddol ddiweddar ac y dylid osgoi gwneud newidiadau i'r strwythur cyffredinol, dylid ystyried gwneud newidiadau i sicrhau fod pwyllgorau presennol yn fwy effeithiol.
- Nid oes digon o arbenigedd technegol ymhlith Pwyllgorau'r Blaid; anaml iawn y ceir cyfranogiad mewn etholiadau i ddewis aelodau o Bwyllgorau; ac mae atebolrwydd i aelodau yn wan.
- Ceir canfyddiad, sy'n enwedig o amlwg yn y sylwadau a gafwyd gan aelodau, fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar brydiau oddi allan i strwythurau ffurfiol, gan 'gliciau' neu grwpiau hunanapwyntiedig.



- Bydd staff a gwirfoddolwyr yn aml yn wynebu ymddygiad amhriodol neu elyniaethus gan nifer fechan o aelodau (ac ni chaiff hynny ei herio'n ddigonol); ac weithiau, ceir diwylliant o negyddoldeb a gwrthdaro mewn grwpiau ar-lein.
- Mae'r uchod wedi lladd ysbryd rhai aelodau o staff a gwirfoddolwyr, ac felly, mae'n lleihau'r gronfa o ddoniau a'r adnoddau sydd ar gael i'r Blaid yng Nghymru.
- Mae Swyddogion ac aelodau pwyllgorau'r Blaid yn gwneud aberth sylweddol o ran amser ac ymdrech i gynorthwyo'r blaid, a phrin iawn yw'r enghreifftiau o gydnabod neu ddiolch iddynt am hynny.
- Oherwydd diwygiadau cyfansoddiadol yn ystod blynyddoedd diweddar, mae rhai elfennau o gyfansoddiad y Blaid yng Nghymru wedi dod yn aneglur neu'n anghyson, ac mae'n ymddangos fod rhai elfennau hanfodol (e.e. y broses o gytuno i gefnogi plaid arall sydd mewn grym) ar goll.
- Mae pwyllgorau'r Blaid eisoes yn ymdrin â llawer o'r meysydd hyn, ac nid yw cynnwys cam gweithredu yma (neu mewn rhan arall o'r adroddiad) yn awgrymu nad yw'r Blaid yn gweithredu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

CAM 11: Adolygu cyfansoddiad pwyllgorau 'technegol' y Blaid yng Nghymru, h.y. Datblygu Polisi; Ymgyrchoedd a Chyfathrebu; Datblygu Aelodau; a Chyllid ac Adnoddau, i sicrhau eu bod yn denu ac yn cadw gwirfoddolwyr sydd â digon o arbenigedd. Gallai hyn gynnwys bod â llai o aelodau etholedig a mwy o aelodau a benodir neu a gyfetholir (fel sydd eisoes yn digwydd yn achos y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau), neu etholiadau anuniongyrchol i rai pwyllgorau (e.e. enwebiadau lleol i'r Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr).

CAM 12: Yn dilyn y Strategaeth (Cam 5) a'r dadansoddiad o swyddogaethau a'r organogram (Cam 7), sicrhau fod Bwrdd y Blaid yng Nghymru, ar y cyd â'r Pwyllgorau, yn datblygu Cynllun Gwaith a thargedau perfformiad ar gyfer pob Pwyllgor. Dylai cynnydd bob Pwyllgor gael ei fonitro gan Fwrdd y Blaid yng Nghymru a dylid cyflwyno adroddiadau ynghylch hynny yn y Gynhadledd. O fewn cwmpas y cyfrifoldebau (Cam 7) a'r Cynllun Gwaith cytunedig, dylid grymuso'r Swyddogion Gweithredol a'u pwyllgorau i wneud penderfyniadau heb gael cymeradwyaeth ychwanegol.

CAM 13: Yn dilyn Cam 12, dylid datblygu diwygiad i'r cyfansoddiad a chynnal dadl ynghylch hynny, i rymuso Bwrdd y Blaid yng Nghymru i ddiddymu Pwyllgor os bydd yn methu â chyflawni'r perfformiad gofynnol. Dylid cynnal etholiadau newydd neu benodi aelodau newydd, a dylai holl aelodau blaenorol y Pwyllgor fod yn gymwys i gael eu hailethol neu ei hailbenodi.



CAM 14: Dylai unrhyw Swyddogion y Blaid yng Nghymru, yn cynnwys Arweinydd Cymru, allu ceisio cyngor gan bwy bynnag y byddant yn ei ddewis. Ni ddylai unrhyw un o Swyddogion na Chyrff y Blaid yng Nghymru, yn cynnwys Arweinydd Cymru a Bwrdd y Blaid yng Nghymru, benodi unrhyw un i wneud swydd weithredol (h.y. nid rôl ymgynghorol), ac eithrio'r sawl sydd wedi'u penodi i wneud swydd yn barod ac sy'n atebol o dan strwythurau'r blaid (h.y. fel aelodau o'r Bwrdd, aelodau o Bwyllgor, neu aelodau Grŵp Seneddol. Dylid cynnig diwygiad i'r cyfansoddiad i weithredu hyn.

CAM 15: Cyflwyno diwygiad i'r cyfansoddiad i sicrhau na ddylai'r sawl a gyflogir fel aelodau o staff gan y Democratiaid Rhyddfrydol, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, neu grwpiau yn Seneddau Cymru a'r Deyrnas Unedig, fod yn gymwys i fod yn aelodau llawn o Fwrdd y Blaid yng Nghymru neu Bwyllgorau'r Blaid yng Nghymru.

CAM 16: Cryfhau'r broses o reoli gwrthdaro buddiant sy'n effeithio ar Swyddogion y Blaid ac aelodau pwyllgorau – yn cynnwys cofrestr buddiannau cyhoeddus tebyg i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer Cyngorwyr Lleol.

CAM 17: Adolygu cyfansoddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a diddymu anghysonderau, gwallau, a chyfeiriadau at swyddi neu gyrff sydd ddim yn bodoli. Adolygu'r cyfansoddiad Ffederal a nodi cyfeiriadau at swyddi a chyrff yng Nghymru y mae angen eu diweddar, a hysbysu Bwrdd Adolygu'r Cyfansoddiad Ffederal pan fo hynny'n ofynnol.

CAM 18: Cyflwyno/ailgyflwyno protocol i gytuno i gefnogi Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys pleidiau gwleidyddol eraill, tebyg i Erthygl 24 y Cyfansoddiad Ffederal.

CAM 19: Cwblhau adolygiad llawn o'r broses o asesu, cymeradwyo, dethol, datblygu, rheoli a mentora ymgeiswyr, gan ystyried y pwyntiau a nodir isod.

- Yr angen i sefydlu prosesau effeithiol i nodi ymgeiswyr o bob cefndir ac o bob rhan o'r gymdeithas.
- Yn aml, cafwyd prinder o Aseswyr, ac ar brydiau, ystyrir fod ansawdd yr Aseswyr, ac felly, y broses gymeradwyo gyfan, yn anghyson. Felly, dylid blaenoriaethu recriwtio Aseswyr sy'n gallu dangos fod ganddynt hanes llwyddiannus fel ymgeiswyr neu gynrychiolwyr.
- Dylid adolygu system graddio'r Broses Cymeradwyo er mwyn ystyried: 1) a oes gwahaniaeth ymarferol ar hyn o bryd rhwng sgorau llwyddo 'gwyrdd' a 'melyn', naill ai o safbwynt cymhwysedd i ddewis ymgeiswyr neu gymorth i'w datblygu? 2) A ddylid gwahaniaethu rhwng y pethau hyn? (os na, a fyddai system Llwyddo/Methu syml yn well?) 3) Pa gyfyngiadau amser ddylid eu pennu yn achos statws Cymeradwy a sut ddylid adolygu ac adnewyddu hynny?



- Dylid adolygu'r broses Dethol i sicrhau ei bod yn ddigon tryloyw, teg, effeithlon a thrwyadl. Dylid rhoi sylw penodol i hyfforddi Swyddogion Canlyniadau Etholiadau.
- Mae angen parhau i ystyried Datblygu ymgeiswyr, yn enwedig ymgeiswyr sydd newydd gael eu Cymeradwyo. Yn achos y rhan fwyaf o rolau newydd, ceir proses hyfforddiant/sefydlu orfodol, a dylai hyn ddigwydd hefyd yn achos ymgeiswyr Cymeradwy.
- I bob pwrpas, nid yw'r broses o Reoli ymgeiswyr wedi bodoli mewn llawer o gylchoedd etholiadol (yn sicr, nid yw wedi bodoli oddi allan i seddi targed), o ran cymorth â'r rôl, datrys problemau ac adolygu perfformiad.
- Mae Mentora ymgeiswyr a gofal bugeiliol ar eu cyfer wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar o dan adain y Pwyllgor Datblygu Aelodau, a dylid sicrhau cymorth i'r broses hon a sicrhau ei bod yn cael ei sefydlu'n llawn.

CAM 20: Adolygu'r broses o nodi, dethol a hyfforddi asiantau, i geisio sicrhau fod gan bob plaid leol un asiant hyfforddedig o leiaf (a nifer ohonynt, yn ddelfrydol), erbyn etholiadau lleol 2022.

CAM 21: Yn dilyn Cam 4 (cyfathrebu'r broses trin Cwynion), datblygu proses (llai na'r broses trin Cwynion ffurfiol) i herio ymddygiad amhriodol "lefel isel" gan aelodau'r plaid tuag at staff neu wirfoddolwyr. Er enghraifft, gallai hyn olygu y byddai'r Prif Weithredwr neu ddeiliad un o swyddi'r Blaid yng Nghymru yn cael sgwrs anffurfiol â'r aelod dan sylw.

CAM 22: Datblygu cynllun cyfathrebu parhaus ac aml-gyfrwng ynghylch strwythur a gweithgarwch y Blaid yng Nghymru (h.y. y Bwrdd, Pwyllgorau a Staff). Dylai hyn ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth i'r sawl sy'n dymuno cael gwybodaeth ac i Swyddogion Gweithredol Pleidiau Lleol. I gynnig un enghraifft fechan, gallai pob Swyddog Gweithredol ddarparu diweddariad ar ffurf pwyntiau bwled bob deufis ynghylch gwaith eu pwyllgor, a gellid anfon yr adroddiad at bobl sy'n dewis cael eu cynnwys mewn rhestr e-bostio.

DS: Arweinydd y Blaid yng Nghymru

Fe wnaeth y Grŵp ystyried rôl allweddol Arweinydd y Blaid yng Nghymru a pha un ai a oedd proses yr etholiad a'r cymorth â'r rôl yn ddigonol i alluogi'r Blaid i gyflawni ei hamcanion. Cytunwyd fod y mecanweithiau presennol yn addas fwy na thebyg, ond nodwyd y gall yr amgylchedd gwleidyddol newid yn gyflym, a dylai'r Bwrdd a/neu'r Gynhadledd adolygu'r mecanweithiau hyn yn ddi-oed os/pan fyddant yn credu fod hynny'n ofynnol.



Ailadeiladu Rhagoriaeth Ymgyrchu: 3a

Dylid mynd ati nawr i gychwyn datblygu strategaeth benodol sy'n disgrifio ein huchelgeisiau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf a'r cynllun ynghylch sut rydym ni'n bwriadu defnyddio ein hadnoddau cyfunol i gyflawni hynny.

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Mae Etholiadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig yn un yn unig o blith cyfres o etholiadau y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ymgeisio ynddynt, ac ar hyn o bryd, mae'r rhagolygon am lwyddiant yn Etholiadau Cyffredinol y DU yn gyfyngedig.
- Fodd bynnag, bydd Etholiadau Cyffredinol yn DU yn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf gan bleidleiswyr (y ganran sy'n pleidleisio), ac yn aml iawn, yr etholiadau hyn fydd yr anogwyr pennaf o safbwynt diddordeb, aelodaeth a gwirfoddoli.
- Sylfaen llwyddiant mewn etholiadau ar bob lefel yw datblygu pleidiau lleol cryf, a datblygu sylfaen gref o gefnogaeth naill ai ar draws etholaeth neu mewn "ynysoedd" neu wardiau penodol o fewn etholaeth/rhanbarth.
- Mae lle i "dargedu" etholaethau penodol yn Etholiadau Cyffredinol y DU, ond rhaid cydbwysu hyn â chydabyddiaeth fod angen cynyddu'r aelodaeth a'r sylfaen o ymgyrchwyr ledled Cymru i sicrhau llwyddiant tymor hir y blaid.
- Mae sylwadau Adolygiad Thornhill ynghylch targedu gwael ac afrealistig yr un mor berthnasol i Gymru, ac mae cyfathrebiadau ynghylch targedu wedi bod yn ddryslyd ac yn anghyson, yn cynnwys cyfathrebiadau at dimau ac ymgeiswyr mewn seddi targed.
- Mae egwyddorion targedu etholaethau yn llawer llai perthnasol yn etholiadau'r Senedd, ble bydd "methu o drwch blewyn" mewn etholaeth yn arwain at lwyddiant yn aml (ond nid bob amser, yn sicr) ar restr ranbarthol.
- Mae sylwadau gan aelodau yn adlewyrchu canfyddiad fod penderfyniadau yn ymwneud â thargedau yn seiliedig ar brydiau ar bersonoliaethau, nid ar egwyddorion eglur a gwrthrychol.

CAM 23: O fewn cwmpas y strategaeth tymor hir (Cam 5), dylid cytuno ar amcanion etholiadol penodol ar gyfer pob set o etholiadau pwysig (San Steffan, y Senedd, lleol), ar sail yr egwyddorion a ddisgrifir isod.

- Dylid cytuno ar amcanion cychwynnol ar gyfer y cylch etholiadol nesaf, beth bynnag fo'r



lefel honno (San Steffan, y Senedd, lleol), o fewn 12 mis wedi'r etholiad blaenorol i'r corff hwnnw neu'r cyrff hynny.

- Dylai'r amcanion hyn fod yn realistig a dylent gynnwys asesiad o'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r amcanion hynny.
- Dylid sefydlu cynllun gweithredu etholiadol penodol ar gyfer pob digwyddiad etholiadol, gan sicrhau y bydd tri chynllun gweithredu o'r fath (San Steffan, y Senedd, lleol) yn bodoli bob amser, ac eithrio yn ystod y 12 mis yn dilyn etholiad penodol.
- Dylid diweddarau amcanion a chynlluniau gweithredu etholiadol mewn perthynas â digwyddiadau (etholiadau eraill, isetholiadau ac ati), a dylent gael eu hadolygu ym mhob achos gan Fwrdd y Blaid yng Nghymru, a ddylai wneud hynny o leiaf unwaith bob 12 mis.
- Bwrdd y Blaid yng Nghymru, Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr Cymru, Prif Weithredwr Cymru, y Pwyllgor Ymgyrchoedd Ffederal a'r Cyfarwyddwr Ymgyrchoedd Ffederal fydd y cyfranwyr allweddol at yr amcanion a'r cynlluniau gweithredu.
- Bydd monitro a chyflawni'r cynlluniau gweithredu yn rhan allweddol o weithgarwch y Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr.

CAM 24: Datblygu a gweithredu proses ynghylch ymateb i isetholiadau (San Steffan, y Senedd a lleol) ac adolygu'r broses honno'n rheolaidd. Dylai hynny gynnwys adeiladu cronfa ariannol y gellir ei defnyddio ar gyfer isetholiadau a nodi pa gymorth y gall y Blaid yng Nghymru ei gynnig i gynorthwyo Pleidiau Lleol i redeg ymgyrchoedd llwyddiannus mewn isetholiadau lleol.

CAM 25: Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Ymgyrchoedd Ffederal i nodi etholaethau sy'n seddi targed (os bydd rhai) ar gyfer Etholiad Cyffredinol nesaf y DU yn unig, ac i gynorthwyo a datblygu'r seddi hynny'n briodol. I gadarnhau, NID ydym ni'n argymhell targedu etholaethau yn Etholiadau'r Senedd yn 2021.

- Mae'n rhaid ystyried fod targedu seddi, yn enwedig mewn perthynas â galwadau am gymorth gan wirfoddolwyr o'r tu allan i'r etholaeth, yn gymorth ychwanegol i sicrhau seddi, ac nid yn rhywbeth sy'n disodli tîm ymgyrchu effeithiol plaid leol.
- Dylai cyfathrebiadau ynghylch targedu fod yn barchus tuag at wirfoddolwyr (yn cynnwys ymgyrchwyr), eu hymrwymiaadau, a'u cyfrifoldebau amrywiol. Ni ddylai neb deimlo eu bod yn peri siomedigaeth i'r tîm os nad fyddant yn gallu ymgyrchu mewn sedd darged oherwydd unrhyw reswm.



- Fel rhan o'u hamcanion mewn perthynas â sedd darged, dylai pleidiau lleol mewn seddi targed ddatblygu cynlluniau i gynorthwyo pleidiau lleol cyfagos a fydd yn rhoi cymorth buddiol iddynt yn ystod etholiadau.
- O safbwynt adnoddau ariannol a staffio (yn hytrach nag adnoddau gwirfoddolwyr), os yn bosibl, dylai seddi targed gael eu datblygu dros y tymor hir, dros fwy nag un cylch o etholiadau San Steffan efallai. Dylai ymgeiswyr mewn seddi targed gael eu hystyried yn rhan allweddol o'r datblygiad tymor hir hwn.
- Dylai meini prawf ar gyfer dewis seddi targed ddilyn egwyddorion Adolygiad Thornhill sy'n disgrifio'r gwendidau â modelau polau piniwn demograffig 2018 a phwysigrwydd cyfraniadau ar lawr gwlad megis etholiadau llywodraeth leol, data ynghylch aelodau a gwirfoddolwyr, a gweithgarwch ymgyrchu.

Ailadeiladu Rhagoriaeth Ymgyrchu: 3b

Deall a sefydlu'r adnoddau hyfforddiant, staffio a chodi arian sy'n ofynnol i ennill seddi targed, cyflawni ein huchelgeisiau mewn seddi targed addawol, a chynorthwyo â'r holl seddi eraill yn ôl y galw

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Mae materion yn ymwneud â seddi targed wedi cael eu hystyried o dan 3a (uchod), ac felly, dylai'r maes hwn ganolbwyntio ar gynorthwyo yn achos pob sedd a phob plaid leol.
- Mae Adolygiad Thornhill yn cyfeirio'n benodol ar Gymru fel "enghraifft anffodus o'r angen am seilwaith lleol", ac ategwyd y sylw hwn gan sylwadau a gafwyd gan aelodau a gan brofiadau aelodau Grŵp yr Adroddiad hwn.
- Mae pleidiau lleol gwan, bychan a marwaidd yn broblem benodol, ac fe wnaeth un aelod gyfeirio yn ei sylwadau at "bentrefi Potemkin".
- Mae ymgyrchwyr lleol mewn sawl ardal yn teimlo nad ydynt yn cael cymorth ac maent hefyd yn ystyried nad yw arweinyddiaeth y Blaid yng Nghymru yn malio am bleidiau lleol nac am ymgyrchu lleol yn gyffredinol. Caiff hyn ei gyfleu yn gryf yn y sylwadau gan aelodau. I'r gwrthwyneb, byddai llawer (os nad pob un) o aelodau Bwrdd y Blaid yng Nghymru a'r Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr yn honni eu bod yn teimlo'n gryf o blaid ymgyrchu lleol, felly mae angen mynd i'r afael â'r datgysylltiad hwn.
- Ni cheir diwylliant cryf o ymgyrchu ymhlith Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac mae llawer o aelodau (hyd yn oed aelodau gweithgar) yn ystyried fod ymgyrchu gweithredol



trwy gydol y flwyddyn (sef dosbarthu taflenni'n rheolaidd, ac yn enwedig canfasio) yn cael ei ystyried yn weithgaredd arbenigol, nid yn weithgaredd craidd. Bydd llawer o ymgyrchwyr yn ymgyrchu ar adeg etholiadau yn unig.

- Gall cynghorwyr etholedig lleol ledled Cymru deimlo'u bod yn cael eu hanwybyddu, er eu bod yn debygol o fod â phrofiad a syniadau a allai fod yn fuddiol i'r blaid yn ehangach.
- Ceir diffyg sgiliau penodol yn gyffredinol ymhlith y gwirfoddolwyr (e.e. defnyddio Connect, dylunio taflenni, neu hyd yn oed gwybod beth sy'n ofynnol er mwyn ennill ward). Fodd bynnag, cafwyd presenoldeb gwael yn y sesiynau hyfforddiant sydd wedi cael eu trefnu gan y Blaid yng Nghymru neu Gymdeithas Cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol. Felly, efallai bydd yn rhaid ymdrin â hyfforddiant a gwella sgiliau mewn modd sy'n wahanol i'r dulliau a ddefnyddiwyd i ymdrin â hynny hyd yn hyn.
- Mae Pwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd yn gweithredu'n wael iawn yn y rhan fwyaf o ranbarthau ar hyn o bryd, ond gallent fod yn ddolen gyswllt hanfodol o safbwynt cynorthwyo pleidiau lleol gwannach pe baent yn gweithredu'n fwy effeithiol.
- Gall canghennau lleol (Pleidiau Lleol) wneud cyfraniad hanfodol at ddatblygu sylfaen ymgyrchu a chodi arian ar draws etholaeth, a dylid annog hynny ymhlith Pleidiau Lleol y mae eu sylfaen aelodaeth a lefel eu datblygiad yn caniatáu iddynt gynnal hynny.
- Fe wnaeth cytundeb ddwysáu problemau yn ymwneud â datblygiad pleidiau lleol gwan a'r datgysylltiad a'r drwgdybiaeth rhwng pleidiau lleol ac arweinyddiaeth y blaid. Deallir y gwnaed ymrwymadau ynghylch cymorth ariannol ar gyfer etholaethau ble tynnwyd enwebiad yr ymgeisydd yn ôl, ac mae'n rhaid anrhydeddu'r ymrwymadau hyn.

CAM 26: Yn dilyn yr archwiliad o Bleidiau Lleol (Cam 6), dylai pob Plaid Leol gytuno ar gynllun gweithredu at ddibenion datblygu, â chymorth y Swyddog Datblygu cyflogedig. Dylai hyn gael ei arwain gan y Blaid Leol (Pwyllgor Gwaith ac ymgyrchwyr allweddol), a dylai gynnwys targedau mewn perthynas ag etholiadau, aelodaeth, ymgyrchu a chodi arian sy'n realistig mewn perthynas â cham datblygiad y Blaid Leol, a dylid cwblhau cyfres o gamau gweithredu cytunedig i weithio tuag at gyflawni'r targedau hynny. Dylai amlinellu unrhyw ofynion o safbwynt hyfforddiant ac adnoddau a gaiff eu cytuno â'r Swyddog Datblygu.

CAM 27: Yn gysylltiedig â chynlluniau datblygu Pleidiau Lleol (Cam 26), pennu llwybr datblygu priodol a gaiff ei ddatblygu gan y Blaid Ffederal yn unol ag argymhelliad 3b(ii) Thornhill ar gyfer pob etholaeth a Phlaid Leol.

CAM 28: Dylai'r Pwyllgor Ymgyrchu ac Ymgeiswyr arwain ac annog gweithgarwch ymgyrchu ym mhob rhan o Gymru, er enghraifft, trwy gynnal "Diwrnodau Gweithredu" yn fisol neu



bod deufis; dylid cynnal y diwrnodau hyn ym mhob etholaeth yng Nghymru yn ystod cyfnod cylch etholiadol.

CAM 29: Cynorthwyo â chyfathrebiadau, rhannu syniadau a darparu cyd-gymorth rhwng cynghorwyr lleol, trwy gyfrwng cyfarfodydd o bell mae'n debyg, a sefydlu disgwyliad y dylai Uwch Swyddogion y Blaid (Llywydd, Dirprwy Lywydd, Arweinydd, y Swyddog Gweithredol Datblygu Polisi a'r Swyddog Gweithredol Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr) geisio cynnal cyfarfod â phob Grŵp Cyngor o leiaf unwaith yn ystod tymor tair blynedd.

CAM 30: Fel rhan o'r broses o ddatblygu diwylliant ymgyrchu, dylai Pwyllgor y Gynhadledd ystyried cynnal o leiaf un sesiwn hyfforddiant/briffio ynghylch ymgyrchu yn ystod cyfarfod llawn pob cynhadledd.

CAM 31: Cynnal adolygiad llawn o Bwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd, diffinio eu rôl a gwella eu heffeithiolrwydd, gan sicrhau diwygiadau i'w cyfansoddiad os bydd hynny'n ofynnol, gan ystyried y pwyntiau a ddisgrifir isod:

- A ddylai swyddogaeth Pwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd fod yn ehangach? Gall Grŵp yr Adroddiad weld potensial am Bwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd cryfach i gynorthwyo pleidiau lleol gwannach, efallai fel cyd-berchnogion cynlluniau datblygu Pleidiau Lleol (Cam 26) ac yn enwedig trwy drefnu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer Pleidiau Lleol o fewn rhanbarth.
- Pwy ddylai fod yn rhan o Bwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd? A ddylai rhagor o swyddi mewn Pwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd gael eu gwneud gan Swyddogion Pleidiau Lleol yn rhinwedd eu swydd? Mae Grŵp yr Adroddiad yn awgrymu fod llawer o wendidau presennol Pwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd yn deillio o'r ffaith eu bod yn 'ôl-ystyriaeth' i etholiadau Pleidiau Lleol, ac mae llawer o'r aelodau yn ymgyrchwyr llai ymroddedig neu lai galluog.

CAM 32: Datblygu cynllun hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r anghenion a nodir yng nghynlluniau datblygu Pleidiau Lleol (Cam 26), gan fwriadu y dylai cynlluniau hyfforddiant penodol gael eu datblygu ar y cyd â Phleidiau Lleol unigol, neu grwpiau o bleidiau lleol, yn hytrach na hyfforddiant generig a gaiff ei redeg yn ganolog.

CAM 33: Darparu hyfforddiant neu gyngor penodol ynghylch datblygu strwythur cangen, a gaiff ei anelu at seddi/Pleidiau Lleol sydd wedi cyrraedd cam addas yn y llwybr datblygu (gweler Cam 27)

CAM 34: Ymgynghori â Phleidiau Lleol yn yr etholaethau ble tynnwyd enwebiadau ymgeiswyr yn ôl fel rhan o'r cytundeb Uno i Aros, a chytuno ar becyn cymorth â phob Plaid



Leol a gafodd ei heffeithio, yn cynnwys cyflawni unrhyw ymrwymïadau penodol a wnaed cyn Etholiad Cyffredinol 2019.

Ailadeiladu Rhagoriaeth Ymgyrchu: 3c

Deall a sefydlu'r adnoddau a'r prosesau sy'n ofynnol i ddatblygu ymgyrchoedd etholiadau cyffredinol ysbrydolg a lwyddiannus a rhoi'r ymgyrchoedd hynny ar waith

Fe wnaeth yr ystyriaethau dilynol ddylanwadu ar safbwynt y Grŵp ynghylch sut ddylid gweithredu hyn yng Nghymru:

- Mae'r argymhellion yn y rhan hon o Adolygiad Thornhill, ynghylch y broses ymarferol o gyflawni ymgyrch etholiadol, yn berthnasol i raddau helaeth i Gymru yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i'r cyd-destun ffederal, ac eithrio'r ffaith fod gan y Blaid yng Nghymru lawer llai o adnoddau ariannol a staffio na'r Blaid Ffederal.
- Mae ansawdd cyfathrebiadau a negeseuon yn ystod ymgyrchoedd etholiadol wedi bod yn wan ac yn ddi-drefn yn aml (mae hon yn broblem tymor hir, nid un sy'n benodol i Etholiad Cyffredinol 2019).
- Mae ansawdd llenyddiaeth etholiadol, dylunio creadigol, a hysbysebu digidol yn aml wedi bod yn neilltuol o wan yng Nghymru.
- Mae gweithgarwch codi arian tymor hir wedi bod yn wan yng Nghymru, a chroesawir y penderfyniad i recriwtio Swyddog Codi Arian penodedig.
- Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch ffynonellau rhai o'r cyfraniadau a roddwyd i'r Blaid yng Nghymru, ei hymgeiswyr, neu Swyddogion y Blaid.
- Efallai fod cytundeb Uno i Aros wedi effeithio'n negyddol ar ein perfformiad uniongyrchol yn yr etholiad (yn sicr, fe wnaeth effeithio'n negyddol mewn rhai etholaethau), a heb os, fe wnaeth effeithio'n negyddol ar ymddiriedaeth a hyder yn y Blaid.
- Mae erthygl 19.1 Cyfansoddiad Ffederal y Democratiaid Rhyddfrydol yn nodi fod dewis ymgeiswyr yn gyfrifoldeb i'r Blaid Wladol, ac mae erthygl J6 Cyfansoddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn nodi y "Dylai'r Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr sicrhau fod darpar ymgeiswyr yn cael eu dewis ar gyfer pob... etholaeth seneddol". Er gwaethaf y gwahaniaeth rhwng darpar ymgeiswyr ac ymgeiswyr enwebedig, mae Grŵp yr Adolygiad yn pryderu nad oedd y mecanweithiau a ddefnyddiwyd i dynnu enwebiadau ymgeiswyr yn ôl cyn Etholiad Cyffredinol 2019 yn cyd-fynd ag ysbryd y cyfansoddiad Ffederal nac ysbryd cyfansoddiad Cymru, nac ychwaith ag arferion da mewn perthynas â democratiaeth y blaid.



- Yn y dyfodol, ni ddylid cytuno i unrhyw gytundeb etholiadol sy'n effeithio ar Gymru heb gynnig cadarnhaol o gefnogaeth gan Gynhadledd Cymru, a dylai unrhyw gynnig o'r fath gael ei godi mewn da bryd cyn etholiad disgwylidig (oherwydd, fel arall, bydd yn rhaid cyfyngu ar anghytundeb cyhoeddus).

CAM 35: Yn dilyn datblygiad y strategaeth tymor hir (Cam 5), dylai'r holl randdeiliaid nodi unrhyw fylchau o safbwynt adnoddau a all atal y strategaeth rhag cael ei gweithredu'n llwyddiannus, a dylai'r Prif Weithredwr ar y cyd â Bwrdd y Blaid yng Nghymru lunio cynllun i nodi unrhyw wendidau.

CAM 36: Dylai codi arian gael ei gynnwys fel rhan o'r hyfforddiant gorfodol i ymgeiswyr, fel yr awgrymir yng Ngham 18, a dylai fod yn elfen graidd o gynlluniau gweithredu datblygiad Pleidiau Lleol (Cam 26).

CAM 37: Datblygu, gweithredu a chyfathrebu Protocol ynghylch Cyfraniadau ar gyfer Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gan ystyried gofynion y gyfraith, ystyriaethau moesegol, tryloywder a phrosesau craffu mewnol. Dylai'r protocol hwn fod yn berthnasol i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, Pleidiau Lleol, Pwyllgorau Rhanbarthau Etholiadol y Senedd, Sefydliadau Cysylltiedig Penodedig, ymgeiswyr, cynrychiolwyr etholedig, a Swyddogion y Blaid.

CAM 38: Cyfrannu at waith y Blaid Ffederal i ddatblygu protocol ynghylch ymdrin â chytundebau etholiadol (Thornhill: 3c(x)), gan sicrhau fod unrhyw benderfyniad i lunio cytundeb etholiadol yng Nghymru yn benderfyniad i'r Blaid yng Nghymru ac ni ddylai unrhyw drafodaethau a gaiff eu cynnal gan Swyddogion Ffederal fod yn berthnasol yng Nghymru oni chaiff hynny ei gymeradwyo trwy gyfrwng mecanwaith a ddisgrifir yng Nghyfansoddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Os bydd y Blaid Ffederal yn cyhoeddi protocol sydd ddim yn adlewyrchu'r safbwynt hwn, dylid cyflwyno Diwygiad i'r Cyfansoddiad yn y Gynhadledd Ffederal i weithredu'r safbwynt a ddisgrifir uchod.

CAM 39: Llunio diwygiad i'r cyfansoddiad a'i gyflwyno i Gynhadledd Cymru, yn nodi na ddylai unrhyw gytundeb etholiadol sy'n effeithio ar etholiadau San Steffan neu'r Senedd gael ei gyd-drafod na'i gymeradwyo heb gynnig cadarnhaol o blaid a gytunir gan Gynhadledd Cymru. Addasu adran J i gynnwys darpariaeth yn nodi y dylai'r Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr weithredu pob cam o fewn eu grym i sicrhau yr enwebir ymgeiswyr (yn hytrach na'u dewis yn unig) ar gyfer holl Etholaethau'r Senedd a San Steffan, oni bai y cydnabyddir unrhyw gytundeb etholiadol fel y nodir uchod.